OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. ar 23 Hydref 2020.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 23.10.2020 am 6.00 p.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Dod i ben**

**2.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y dydd ar 8 Tachwedd 2020.

(2) Nid yw'r rheoliad hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 23.10.2020 am 6.00 p.m., gweler **rhl. 1(3)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020, RHAN 1.